

## **Cyngor Cymuned Llanelian (275)**

Cofnodion cyfarfod nos Fawrth, Ebrill 12, 2016 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

**Presennol:** Hefina Williams Thomas D Jones, John Griffiths, Elfyn Hughes, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Helen Hughes, Glenys Jones, Cyng Aled M Jones, Cyng Richard Jones, Iwan Huws (Adran Forwrol Cyngor Sir Ynys Mon)

**Ymddiheuriadau:** Dafydd Griffiths, Wesley Parry, Cyng Wil Hughes,

**1 Croeso**

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Hefina Williams a chroesawyd pawb i'r cyfarfod.

**2 Datgan Diddordeb**

Materion Cynllunio – Cyng Richard Jones

**3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig Carol Whitaker, eilio Helen Hughes.

**5 Llithrfa**

Croesawyd Iwan Huws i'r cyfarfod. Yn dilyn y penderfyniad i gau y llithrfa i gerbydau a chychod, mae nifer fawr o gwynion wedi eu derbyn gan y Clerc ac Mr Huws yn y Cyngor Sir. Yn sgil hyn, mae Dafydd Griffiths wedi cwrdd ag Mr Huws i geisio dod i gytundeb wrth i'r ddau Gyngor gydweithio er budd y defnyddwyr.

Cafwyd grynodedb o'r cyfarfod hwnw a chyfle i'r Cyngor Llawn ystyried y cynnig – *Nodwyd mai bwriad gwreiddiol Partneriaeth Llithrfa Llanelian oedd i barhau i adael i bobl oedd yn byw yn lleol (Ward Llanelian) i lansio cychod lawr y llithrfa tra'n cefnogi'r Cynor Sir yn eu hymdrechion i reoli PWR's a cychod cyflym.*

*Wedi trafod gwhanol opsiynau posib, ac ymateb defnyddwyr y llithrfa, cytuno cyflwyno opsiwn arall i'w ystyried gan y Cyngor Cymuned sef:*

- *Yr Adran Forwrol i baratoi goriadau, postyn a chlo, ac i anfon warden i draeth Llanelian ar adegau prysur. Bydd posib i'r warden godi ffi dyddiol ar rai sydd ddim wedi talu ffi blynyddol y Cyngor neu yn gallu dangos goriad y Bartneriaeth.*
- *Y Cyngor Cymuned i addasu'r ffurflen gyda datganiad o bwrpas y cynllun a blwch i nodi cyfeiriad lleol, trefnu dosbarthu'r goriadau a'u marcio'n glir fel bod modd lleihau copio ac ehangu cynrychiolaeth yu Bartneriaeth.*
- *Byddai unrhyw elw o'r cynllun yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng y Cyngor Sir a'r Cyngor Cymuned.*

Roedd yr aelodau yn fodlon derbyn y cynnig ar yr amod byddai yn cael ei adolygu ar ddiwedd y tymor. Fe gadarnhawyd y byddai posib cael adroddiad yn dangos pryd oedd y Warden wedi bod yn Phorth Eilian, ac y byddai hefyd posib cydweithio gyda'r warden traffig i ddelio a chwynio parcio.

Y cam nesaf yw trefnu cyfarfod Partneriaeth y Llithrfa i gadarnhau beth yw dalgylch cymwys a chostau goriadau i'r rheini sydd am ei cael. Y Bartneriaeth sydd fel rheol wedi bod yn cadarnhau y nifer o oriadau sydd ar gael a hefyd amseru rhoi'r postyn yn ei le. (Gobeithio cynnal y cyfarfod hwnw 26/4/2016 gan wahodd holl ddeilwyr goriadau 2015).

CET

Diolchwyd i Mr Huws am ei amser a'i gefnogaeth ac fe adewodd y cyfarfod am 7.30.

**4 Materion yn Codi**

4.1 Llythyr Dr Gwynne Jones – cadarnhawyd bod y pwyntiau a nodwyd mewn llythyr at prif weithredwr y Cyngor Sir wedi cael sylw ebyn hyn.

4.2 Cwn swnllyd – mae ebost wedi ei dderbyn gan y Cyngor Sir yn cadarnhau bod camau cyfreithiol yn cael eu cymryd ac nad oes posib datgelu unrhyw wybodaeth pellach ar hyn o bryd.

- 4.3 Tai cymdeithasol – cafwyd ymateb swyddogol gan y Cyngor Sir yn dilyn honiadau nad oedd unigolion yn byw yn y tai sydd wedi eu gosod iddynt a bod y tai rheini felly ddim ar gael i bobl sydd eu wir angen. Mae gwybodaeth pellach wedi ei basio ymlaen i'r adran gael ymchwilio.
- 4.4 Carafan ger Ty Moel – mae'r strwythr wedi mynd. CET
- 4.5 Arwyddion ffordd – cytuno mai ar y polion presennol ac yn ychwanegol i'r arwyddion 'anaddas i gerbydau mawr' dylai gosod arwyddion 'dim sat-nav'. Y Clerc i gadarnhau gyda'r adran briffyrdd.
- 4.6 Gwastraff – cafwyd ebost gan yr adran gwastraff yn cadarnhau bydd mwy o wybodaeth yn cael ei ddsbarthu cyn yr Hydref ynglyn a chasgliadau biniau pob tair wythnos. Byddent yn trafod pryderon ynglyn ag ysbwriel ailgylchu gyda'r contractwyr. Nodwyd bydd casgliadau eitemau mawr yn parhau ond bydd angen talu am y gwasanaeth.
- 4.7 Safleoedd Bws – mae'r safleoedd bws wedi cael eu glanhau erbyn hyn.
- 4.8 Cae chwarae – ma'r swing newydd wedi ei osod erbyn hyn a'r gwaith i'r offer coed wedi ei gwblhau. Nodwyd fodd bynnag bod digwyddiad ddiweddar wedi golygu bod merch yn ei ardegau wedi ei thorri allan o un o'r siglenni i fabanod gan y frigid dan. Mae sedd newydd wedi ei archebu, ac anfoneb wedi ei anfon at yr unigolyn. CET
- 4.9 Canolfan Hamdden Amlwch – cafwyd ebost gan reolwr y ganolfan yn ymddiheuro am y sbwriel yn y MUGA ac yn ddiolch am ddod a'r broblem at ei sylw. Mae yn cymryd camau i atal y broblem rhag digwydd eto. CET
- 4.10 Y ddiweddar Mrs Mair Morris – daw llythyr gan gyfreithwyr y diweddar Mrs Morris yn cadarnhau ei bod wedi gadael peth arian i'r Cyngor yn ei ewyllys. Nid oes cadarnhad ar hyn o bryd faint sydd wedi ei adael, ond bydd yr arian i'w wario'n ol ei dymuniad ar brosiectau yn ardal Llaneilian ac i edrych ar ol beddi'r teulu ym Mynwent Llaneilian. Cytuno ysgrifennu at y teulu i ddiolch ac i gadarnhau byddai'r Cyngor yn cadw at ddymuniad Mrs Morris.

## 6 Newid Enwau Tai

Rhoddyd grynoded o bolisi'r Cyngor Sir ar newid enwau tai, a'r rhestr oedd ganddynt o'r tai hynnu oedd wedi eu newid yn swyddogol ers 1996 (4). Cafwyd ymddiheuriad nad yw Paul Roberts yn gallu mynychu cyfarfod y Cyngor Cymuned ond mae wedi estyn gwahoddiad i rhai aelodau gyfarfod a fo yn Stad Llys Dulas i drafod y mater. Enwebwyd Dafydd Griffiths, Hefina Williams a TD Jones i gynrychioli'r Cyngor. Gofynnwyd i'r Clerc gadarnhau dyddiad ac amser cyfleus. CET

## 7 Cynllunio

- 7.1 Roedd pedwar cais i'w trafod – CET
- 1 – Kingston / Dubin – dim gwrthwynebiad
  - 2 – Rhos Helyg – dim gwrthwynebiad / cefnogol
  - 3 – Mast telegraff – dim gwrthwynebiad
  - 4 – Rhiwlas – dim gwrthwynebiad
- 7.2 Penderfyniadau – CET
- Cafwyd wybod gan y Cyngor Sir eu bod wedi gwrthod cais ol-weithredol i gadw coed ar dir ger Rhos Newydd. Nodwyd pryder bod y gwaith yno yn parhau a bod carafan a chontainer wedi cyrraedd erbyn hyn. Y Clerc i nodi'r pryderon gyda'r Adran Gynllunio.

Cafwyd wybod gan yr Arolygydd ei fod wedi caniatáu cais am ddatblygiad ar dir ger Lletroed Mawr yn dilyn apel.

## 8 Materion Ariannol

- 8.1 Taliadau – cymeradwywyd y taliadau canlynol –
- £18.00 GS Williams (glanhau safleoedd bws)
  - £85.00 JD Roberts (archwiliad 2014/15)
  - £229.31 Costau Clerc Ionawr-Mawrth
  - £930.52 Cyflog Clerc Ionawr-Mawrth
  - £35.25 HMRC
  - £3736.80 Playquest (cae chwarae gan gynnwys swing newydd)

Cytuno talu'r Clerc yn fisol – ni fydd cost ychwanegol i'r Cyngor.

- 8.2 **Adroddiad Blynyddol**  
Aethpwyd drwy'r adroddiad gan amlinellu prif wariant ac incwm y Cyngor dros y flwyddyn diwethaf a chafwyd esboniadau am unrhyw wahanhiaethau megis ymddengys gor-wariant yn y cae chwarae yn sgil derbyn grantiau ychwanegol. Nodwyd bod copiau o holl daliadau a derbyniadau ar gael os oedd unrhyw un am eu gweld mewn manylder. Diolchwyd i'r Clerc am baratoi'r adroddiad.
- 8.3 **Archwiliad**  
Cytuno byddai John Roberts yn paratoi adroddiad mewnol o gyfrifon y Cyngor eto eleni. Bydd ei archwiliad yn cymryd lle Mai 13-16 yn swyddfeydd y Cyngor Tref, Amlwch.
- 8.4 **Gofynnion yr Archwiliwr**  
Dosbarthwyd gopiau o adroddiad yn trafod gofynnion yr archwiliwr. Derbyniwyd cynnwys yr adroddiad a diolchwyd i'r Clerc am er baratoi.
- 8.5 **Yswiriant 2016/17** CET  
Daw pris o £260.61 i adnewyddu polisi yswiriant y Cyngor am flwyddyn arall. Mae hyn yn cynnwys y swing newydd ym maes chwarae Lon Tyddyn Waen a hefyd Maes Llwyfo. Cytuno derbyn y pris.
- 9 Gohebiaeth**
- 9.1 **Diweddariad am y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Gwynedd a Mon)**
- 9.2 **Grid Cenedlaehol – cylch llythyr diweddaraf**
- 9.3 **Chwarae i Gymru/Play Wales – cylch llythyr diweddaraf**
- 9.4 **Eglwys Eilian – ebost yn cadarnhau bod y gwaith i'r to wedi ei gwblhau bellach.**
- 9.5 **Llywodraeth Cymru – newidiadau i'r Cod Ymddygiad er gwybodaeth.**
- 10 Unrhyw Fater Arall**
- 10.1 **Y Bedol – fe ofynnwyd os oedd unrhyw newyddion yn dilyn yr arwerthiant. Nodwyd nad oedd yr adeilad wedi ei werthu yno.**
- 10.2 **Cyflwr y Lon - nodwyd bod cyflyr y lon ym Mhengorffwysfa, ger Pant y Clociau a ger Tyddyn Mawr angen sylw ar fryder. Cytuno cysylltu a'r Cyngor Sir.** CET
- 10.3 **Prosiect Rhyfel Mawr – bydd diwrnod agored yn cymryd lle 23/4/2016 yn y Neuadd Bentref ac mae croeso i bawb fynychu.**
- 10.4 **Diolch – cafwyd ddiolch gan Hefina Williams ar ran ei theulu am y cerdyn a phresenoldeb wrth gydymdeimlo a hwy wedi profedigaeth ddiweddar.**
- 11 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – Nos Fawrth 10/5/2016**  
Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 8.30 o'r gloch.